**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 15-02(Cofn. drafft)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **31 Hydref 02** |
| **Amser** | **9.00 – 12.30am** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd** |

**Yn bresennol**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Mick Bates | Maldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman (Cadeirydd) | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog Datblygu Economaidd) | Gorllewin Abertawe |
| Ron Davies | Caerffili |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| David Ian Jones | Gogledd Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Yr Adran Datblygu Economaidd |
| Emyr Roberts | EPD |
| Mike Phelps | EcAD |
| Julian Revell | SD |
| Mike Clancy | ICM |
| Julie Hanley | ICM |

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1. Cafwyd datganiad o fuddiant gan Christine Gwyther bod ei phartner yn berchen ar fusnes ymgynghori; Dafydd Wigley sy'n gyfarwyddwr ar gwmni bach, yn Llywydd Hufenfa Sir Gaerfyrddin a Chadeirydd SBARD; Mick Bates sy'n gyfarwyddwr busnes ffermio ac yn bartner mewn cwmni cydweithredol amaethyddol a Phil Williams sy'n gysylltiedig â chais am Amcan 1.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog Datblygu Economaidd.**

**EDC 14-02 (p1) (p1a) (p1b)**

**EDC 14-02 (p2)**

**EDC 14-02 (p3)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei adroddiad gyda chrynodeb llafar o'r datblygiadau diweddaraf yr amgaeir copi ohono fel atodiad i'w adroddiad.
2. Yn y drafodaeth, cadarnhaodd y Gweinidog bod Gweinidog Amddiffyn y DU wedi gwadu geirwiredd yr adroddiadau yn y wasg bod swyddi Prosiect Red Dragon yn Sain Tathan ac yn Sealand yn y fantol. O safbwynt Llywodraeth y Cynulliad, roedd cynlluniau Red Dragon yn mynd rhagddynt ac y dechreuid adeiladu'r hangar newydd ym mis Ionawr cyn belled ag y ceid caniatâd cynllunio.
3. Roedd rhai Aelodau'n bryderus bod cymaint o haeriadau disail a diffynhonnell yn adroddiad y Gweinidog. Cytunodd y Gweinidog, pan fyddai'n cyfeirio mewn adroddiad yn y dyfodol at ffynhonnell fel erthygl papur newydd, i roi copi o'r stori neu gyfeiriad mwy penodol. Cytunodd hefyd i ddarparu gwybodaeth i gefnogi'i haeriad bod y rhaglen 'Inside Welsh Industry' yn uchel ei pharch. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
4. Mynegodd yr Aelodau eu gofid bod papurau 1a ac 1b am CITC wedi cyrraedd yn rhy hwyr iddynt allu eu hystyried. Dywedodd y Gweinidog iddo eu darparu yn bennaf er gwybodaeth a chadarnhaodd hefyd, fel ateb i gwestiwn, nad oeddynt yn ymdrin ag arian strwythurol.
5. Dywedodd y Gweinidog iddo siarad â Jon Horne ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd am y cynnydd yn y busnes cludo nwyddau ac ychwanegodd iddynt gipio contractau cludo nwyddau oddi wrth feysydd awyr eraill yn ddiweddar.
6. Roedd un Aelod yn ofidus nad oedd y Gweinidog DE wedi siarad â Gweinidog yr Amgylchedd am y bwriad i garthu mwy o dywod ym Môr Hafren. Dywedodd y Gweinidog bod y diwydiant wedi gwneud cynrychioliadau ac y bu ei swyddogion yn cydweithio'n glos â swyddogion Adran yr Amgylchedd a Chynllunio.
7. Wrth ymateb i bryder a fynegwyd gan Aelod, dywedodd y Gweinidog bod swyddogion wedi bod yn trafod â Bentwood o Fargoed Uchaf am eu bwriad i dorri'r gweithlu ond na fyddai'n briodol iddo gynnig sylw cyhoeddus ar y mater eto.
8. Trafodwyd yr effaith y mae cyfraddau llog isel a'r cynnydd yn sgil hynny ym

mhrisiau tai yn ei chael ar ymdrechion i gadw pobl ifanc yn broydd. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn parhau i weithio gydag aelodau eraill y Cabinet ar drywydd atebion i'r broblem.

9. O ran Grant Buddsoddi'r Cynulliad (AIG), dywedodd y Gweinidog bod y 110 o gynigion sydd wedi'u gwneud hyd yma yn cynrychioli croestoriad daearyddol eithaf teg a bod llawer o ardaloedd Amcan 1 wedi elwa. Ategodd unwaith eto ddatganiad y Gweinidog Cyllid yr ysgwyddid y galw am AIG bob blwyddyn trwy hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Roedd Aelodau'n ofidus y gallai hynny effeithio ar gyllidebau eraill. Dywedodd y Gweinidog eu bod yn poeni'n ofer, gan y daw'r arian ychwanegol o gronfeydd wrth-gefn neu drwy ail-ddyrannu arian nad oedd wedi'i wario yn rhannau eraill y Cynulliad, er mai tanwariant yn y MEG Datblygu Economaidd fydd y brif ffynhonnell. Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid yn gofyn iddi grisialu'r sefyllfa. **[Gweithredu: Cadeirydd/Clerc]**
10. Codwyd unwaith eto fater y cynnydd mewn premiymau yswiriant ers 11 Medi ac effaith hynny yn arbennig ar fusnesau bach. Roedd Aelodau'n poeni y byddai busnesau'n tanyswirio'u hunain. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn rhannu'r un gofid a'i fod wedi ysgrifennu at Weinidogion y DU am y mater.
11. Er bod y newyddion am General Dynamics yn galonogol, gofynnodd Aelod i'r Gweinidog adolygu'r anawsterau a oedd wedi codi yn ystod y trafodaethau â'r cwmni. Gofynnodd y Gweinidog i'r Aelod roi gwybod iddo beth oedd ei ofidiau penodol.
12. Mynegodd yr Aelodau eu gofid nad oedd y Pwyllgor wedi cael bod ynghlwm yn ddigon cynnar â nifer o fentrau polisi allweddol a'u bod yn gweld hynny'n arwydd bod y Gweinidog yn diystyru eu rôl wrth lunio polisi. Yn arbennig, roeddynt yn ofidus bod y Cyfarfod Llawn wedi trafod y Cynllun Gweithredu Arloesi cyn y pwyllgor DE. Roeddynt yn ofidus hefyd nad oedd y Gweinidog i'w weld yn chwarae rôl amlwg yn y Pwyllgor ac nad oedd i'w weld yn gwneud dim mwy na datgan penderfyniadau gweithredol. Ymateb y Gweinidog oedd iddo deimlo na fyddai'r Pwyllgor DE wedi cael digon o amser i gyfrannu at y Cynllun Arloesi ac nad oedd amseriad trafodaeth y Cyfarfod Llawn yn ymgais i danseilio'r Pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn siomedig nad oedd y Cynllun Arloesi wedi cael ei roi gerbron y Pwyllgor ynghynt a chefnogodd gais bod y Gweinidog yn hysbysu'r Pwyllgor am benderfyniadau polisi ymlaen llaw er mwyn cael amser i'w hystyried. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
13. Mynegodd Aelod ei bryderon ynghylch yr holl Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a oedd yn bod er ei fod yn croesawu cyfraniad arbenigwyr. Gofynnodd i'r Gweinidog am restr o'r holl Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a'u haelodau. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y byddai'n darparu adroddiadau rheolaidd ar y grwp a oedd newydd ei sefydlu i annog creu partneriaethau yn y gweithle. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
14. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn ystyried sut y gallai Cymru gyfan fanteisio'n llawn ar botensial Cwpan Ryder yn 2010. Yn ystod ei ymweliad diweddar ag Iwerddon, cafodd y Gweinidog weld drosto'i hun beth mae Llywodraeth ac

awdurdodau Iwerddon yn ei wneud o ran cynnal y twrnamaint yn 2006.

15. Wrth ymateb i bryderon am broblemau gyda'r cyflenwad trydan ar ôl y stormydd diweddar, dywedodd y Gweinidog iddo drafod y mater gyda Phrif Weinidog Cymru ac er nad oedd yn bwnc datganoledig, eu bod wedi trefnu cwrdd â rhai o'r cwmnïau.
16. Testun siom i'r Gweinidog oedd clywed adroddiadau gan aelodau nad oedd 'dyfeiswyr' yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i allu datblygu eu syniadau yng Nghymru. Dywedodd fod hyn yn brawf bod angen gwneud mwy o blaid arloesi trwy brosiectau fel 'Cymorth Cymru'. Dywedodd fod llawer iawn i'w wneud eto yn y maes hwn ond bod nifer fawr o fentrau wrthi'n cael eu datblygu yn y tymor byr i geisio datrys y mater.
17. Aeth y Pwyllgor yn ei flaen i drafod yr Adroddiad Economaidd Chwarterol a'r Ystadegau Economaidd Chwarterol. Mawr oedd eu diolch i'r awduron am eu gwrthrychedd ac am baratoi dogfennau mor ddefnyddiol. Er hynny, dywedodd rhai Aelodau eu bod yn ofidus ynghylch sefyllfa gymharol Cymru â gweddill y DU. Gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud i leihau'r bwlch rhwng un rhanbarth a'r llall yng Nghymru, er wrth ddweud hynny, eu bod yn cydnabod bod yr ymrwymiad a'r gwaith caled i ddatblygu economi Cymru yn ddiflino. Mae'r holl dystiolaeth, er hynny, yn awgrymu bod y bwlch rhwng Cymru a gweddill y DU yn tyfu ac awgrymwyd nad oedd Llywodraeth y Cynulliad yn barod i adolygu ei pholisïau yng ngoleuni hynny. Holodd yr Aelodau hefyd pam fod cyn lleied o ystadegau 'Cymreig' a theimlwyd y dylai fod yn bosibl erbyn hyn cael gafael ar ffigurau GDP mwy diweddar neu o leiaf amcangyfrifon amodol gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael.
18. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog ei fod yn derbyn bod diffyg gwybodaeth gadarn yn aml a dyna pam y cafodd y Panel Ymgynghorol ar Ymchwil Economaidd ei sefydlu. Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar y data sy'n bod. Nodwyd y bydd papur sy'n rhoi adroddiad ar hynt y rhaglen i ddatblygu ystadegau economaidd i Gymru yn cael ei drafod yng nghyfarfod y pwyllgor DE ar 14 Tachwedd. Gofynnodd yr Aelodau am seminar anffurfiol i esbonio'n fanwl pa wybodaeth sydd ar gael yng Nghymru. **[Gweithredu: Clerc]**
19. Heblaw'r diffyg ystadegau, dywedodd Aelodau ei bod yn ffaith bod lefelau uchel o ddiweithdra ac anweithgarwch yn y Cymoedd a'i bod yn anodd gweld arwyddion sut y gallai'r strategaethau sy'n bod lwyddo i gau bwlch y GDP erbyn 2010.
20. Dywedodd y Gweinidog y bu Cymru'n dyst i gyfnod o ailstrwythuro aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf gyda'r dirywiad yn y diwydiannau glo, dur a thrwm ac mai prosiect tymor hir oedd creu economi mwy amrywiol a chadarnach i Gymru. Dywedodd na fyddai dirywiad bychan yn economi'r DU yn amharu ar ei bolisiau i fynd i'r afael â'r pwnc. Beth bynnag yw'r rhagolygon ar gyfer y GDP, dywedodd y byddai'n parhau â'r strategaethau yn Cymru'n Ennill am eu bod yn iawn i Gymru a chamgymeriad byddai eu newid prin flwyddyn wedi dechrau'r rhaglen deng mlynedd.

**Eitem 3: Gwell Rheoleiddio**

**EDC 14-02(p4)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei bapur ar sut i leihau'r baich rheoliadau ar fusnesau.
2. Yn y drafodaeth, dywedodd mai ychydig iawn o is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen ar y sector datblygu economaidd yng Nghymru, ac yn 2001, dim ond un offeryn o'r fath fu. Roedd y mwyafrif yn ymwneud ag iechyd, llywodraeth leol a thai. Cadarnhaodd fod lle i Gymru greu ei gorchmynion ei hun neu awgrymu i adrannau Whitehall bod eu hangen.
3. Mynegwyd pryder mai dim ond 3 partneriaeth busnes leol sy'n bod yng Nghymru er i'r Gweinidog geisio eu creu fel ffora i drafod y materion hyn. Cytunodd y Gweinidog bod hyn yn destun siom iddo er gwaetha'r ymgyrch frwd i'w hyrwyddo, ond dywedodd nad oedd rhai ardaloedd wedi'u creu am fod ganddynt eisoes fecanweithiau tebyg.
4. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn aml yn lobio Whitehall am feichiau'r rheoliadau ond nododd fod lefel y rheoleiddio yn y DU, o'i chymharu ag Ewrop a gweddill y byd, ar y cyfan yn fach. Dywedodd Aelodau bod angen cadw golwg ar y rheoliadau sydd eisoes yn bod yn ogystal â chraffu ar rai newydd. Dylid pennu dyddiad ar gyfer adolygu pob deddfwriaeth.
5. Pwysleisiodd Aelodau fod yn rhaid bod yn gytbwys wrth edrych ar reoliadau. Roedd llawer ohonynt yn rhoi cyfyngiadau angenrheidiol a rhesymol ar fusnesau er mwyn diogelu pobl neu warchod yr amgylchedd ac ati. Y peth pwysig i'w gofio wrth asesu manteision ac anfanteision unrhyw isddeddfwriaeth arfaethedig oedd bod y gost i'r rheini sy'n gorfod cydymffurfio â nhw yn ogystal ag ystyriaethau o ran diogelwch neu'r amgylchedd yn cael eu cloriannu.
6. Soniwyd am yr angen i helpu busnesau â'u hymdrechion i gydymffurfio. Cyfeiriodd y Gweinidog at drafodaethau a gafodd â chymdeithasau busnes am wella'r cymorth i fusnesau yn hyn o beth. Cyfeiriodd at Wasanaeth Busnesau Bach y DTI sydd ar gael ledled y DU i ysgafnhau'r baich rheoliadol ar fusnesau bach. Gofynnodd Aelodau am fwy o wybodaeth amdano ac am ei berthynas â'r Gwasanaeth Cyswllt Busnes newydd. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
7. Cytunodd y Gweinidog hefyd i edrych unwaith eto ar y cynnig a wnaed yn y gorffennol i greu gwefan yng Nghymru y gallai'r cyhoedd a busnesau ei defnyddio i gysylltu'n uniongyrchol â'r Cynulliad Cenedlaethol. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
8. Mynegodd Aelodau eu dymuniad i gadw golwg fanylach ar y rheoliadau ar fusnesau. Cytunodd y Gweinidog i baratoi rhestr o'r rheoliadau yr oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i wneud isddeddfwriaeth yng Nghymru yn eu cylch. Cytunodd hefyd i baratoi adroddiadau rheolaidd i'r pwyllgor DE ar reoliadau o fewn y maes economaidd a thu hwnt iddo a allai effeithio ar fusnesau. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

9. Cytunodd y Cadeirydd ag awgrym y dylai'r Pwyllgor gael cyfle i drafod y pwnc yn fanylach ac y dylai wahodd cyrff cynrychioliadol i roi cyflwyniadau i'r Pwyllgor ac efallai dod i gyfarfod i roi tystiolaeth. **[Gweithredu: Clerc/Cadeirydd]**

**Eitem 4: Adroddiad ar yr ymweliad â'r UDA**

**EDC 14-02(p5)**

1. Mynegodd yr Aelodau eu diolch i'r clercod am drefnu ymweliad y Pwyllgor â'r Unol Daleithiau. Rhoddwyd cymeradwyaeth fras i'r papur fel sail ar gyfer adroddiad llawnach y Pwyllgor a gwnaed y sylwadau canlynol ar ei fanylion:

- Er gwaetha'r ymdeimlad cryf o bartneriaeth sy'n bodoli rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, nid oedd lefel y cydweithredu rhwng y cyrff gwahanol wastad mor amlwg.

- Trawyd yr Aelodau gan ymrwymiad cryf y sector preifat i wneud ei ran i hybu datblygiad cymunedol ac economaidd - roedd y ffaith bod 'hen arian' ar gael trwy gronfeydd amrywiol yn hwb yn hyn o beth.

- Roedd angen i'r Pwyllgor baratoi adroddiad llawnach ar fand llydan wedi'r ymweliad â Sweden.

- Dylid cyfeirio'n fanylach at brofiad yr UDA lle ymddengys bod ffeibr obtig yn ennill ei blwyf fel y brif sianel gyfathrebu i 'central stations' (sy'n cyfateb i'n 'cyfnewidfeydd' ni) ac o'r rheini i 'remote nodes', gyda chopr yn cludo'r signal y cam olaf at bob danysgrifiwr tan y câi ei ddisodli gan 'ffeibr-i'r-cartref'.

- Roedd gofyn i'r adroddiad roi mwy o bwyslais ar ymrwymiad yr UDA i isadeiledd, ac yn arbennig, pwysigrwydd heolydd i bob datblygiad. Ymddengys i hyn daro nodyn gyda'r rheini sy'n poeni am yr amgylchedd.

- Roedd y pwer i amrywio trethi lleol yn hanfodol bwysig ym maes datblygu yn yr UDA - mater yr oedd y Pwyllgor wedi galw amdano yng Nghymru sawl tro.

- Roedd yn bwysig cryfhau a ffurfioli'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo Cymru yn yr UDA. Roedd y Pwyllgor wedi cael gwybod bod 5 miliwn o bobl, yn ôl Cyfrifiad 2000 yr UDA, o dras Cymreig - 2 miliwn yn fwy ers 1990 (er y gallai'r newid yn y diffiniad fod wedi llurgunio'r ffigur hwn). Roedd yr Aelodau'n teimlo ei bod bwysig iawn targedu ymdrechion i hyrwyddo Cymru ac na fyddai'n realistig na synhwyrol mynnu presenoldeb Cymreig ym mhob dinas neu lysgenhadaeth. Er hynny, gallai budd ddod o benodi

unigolyn ym mhob llysgenhadaeth i fod yn gyfrifol am faterion 'Cymreig'.

- Roedd y cysylltiadau clos rhwng diwydiant a'r secor academaidd yn bwysig iawn.
- Roedd cyfleusterau diwylliannol yn ffactor hynod bwysig wrth ddenu diwydiant i ardal.

2. Dywedodd y Gweinidog bod llawer o'r casgliadau y daeth y Pwyllgor iddynt yn debyg i'r rheini y daeth yntau iddynt wedi'i ymweliad ag America. Pwysleisiodd bwysigrwydd partneriaethau rhwng y preifat a'r cyhoeddus a chytunodd fod angen codi proffil Cymru dramor. Cyfeiriodd at y Credyd Treth Buddsoddi Cymunedol a dywedodd y byddai'n parhau i ddatblygu'r potensial i ddod ag elfen o hyblygrwydd i drethi lleol.

3. Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Clerc yn adolygu'r adroddiad i gymryd sylwadau'r Aelodau i ystyriaeth ac y byddai'n ei ebostio iddynt roi sêl eu bendith iddo. Dywedodd fod swyddogion o Lysgenhadaeth yr UDA am ymweld â Chymru maes o law a'i bod yn gobeithio y bydd yn bosibl iddynt gwrdd ag Aelodau bryd hynny.

**Eitem 5: Cymru'n Ennill - adroddiad ar ei hynt**

**EDC 14-02(p6)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur, gan amlinellu prif fentrau Cymru'n Ennill a dweud bod camau breision wedi'u cymryd gyda phob un o'r 71 o bwyntiau gweithredu yn yr adroddiad.
2. Roedd rhai Aelodau'n poeni bod nifer y mentrau'n cynyddu a'i bod yn amhosibl asesu eu heffaith ar yr economi. Roeddynt i bob golwg yn cynyddu nifer y swyddi yn y sector cyhoeddus a dywedodd un aelod fel enghraifft y bu 81% o gynnydd yn ôl y sôn yn nifer staff y WDA ers 1998, ond ble oedd y dystiolaeth eu bod yn arwain at greu swyddi yn y sector preifat - yn enwedig y tu allan i Gaerdydd.
3. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n bwysig gwneud y gorau o arian amcan 1 a bod cyfran dda o'r staff newydd yn y WDA yn gweithio ar reoli rhaglenni. Ychwanegodd fod llygad barcud yn cael ei gadw ar lefel yr adnoddau y mae'r WDA yn ei ddefnyddio ar reoli a gweithredu prosiectau ac er bod llawer o'r swyddi newydd yng Nghaerdydd, roedd y prosiectau eu hunain ledled Cymru.
4. Gofynnodd Aelodau am fwy o fanylion am yr Astudiaeth Cydbwysedd Oedran mewn Cymunedau ac yn arbennig, a fyddai'n llywio polisi tai gwledig. Cytunodd y Gweinidog i baratoi adroddiad arno ar gyfer y cyfarfod nesaf. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
5. Roedd Aelodau'n ofidus bod yna dal nifer fawr o raglenni i helpu busnesau ac nad oeddynt wedi cael gwybodaeth gan y WDA er gofyn iddynt sawl gwaith am wybodaeth fanwl am eu hymarferiad mapio. Dywedodd y Gweinidog bod y WDA yn ceisio symleiddio gwasanaethau i fusnesau ac y byddai'n mynd ar eu hôl i gael

gwybodaeth am y rhaglenni helpu busnesau. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

6. Gofynnodd Aelodau pam fod adolygiad blynyddol cyntaf Cymru'n Ennill yn cael ei gynnal haf 2003 a gofynnwyd am iddo gael ei gynnal ar ben-blwydd cyntaf y cynllun ym mis Ionawr. Dywedodd y Gweinidog na fyddai'n bosibl cynnal adolygiad tan y byddai ffigurau blwyddyn gyfan ar gael ddiwedd Mawrth.
7. Roedd peth gofid bod y biotechniwm a adeiladwyd yn y Gerddi Botanegol Cenedlaethol yn dal yn wag i bob golwg. Cadarnhaodd y Gweinidog bod y tenant cyntaf ar fin cymryd ei le.
8. Cafwyd sylw am ynni adnewyddadwy a bod angen i'r WDA weithio'n galetach i'w hyrwyddo. Mynegwyd gofid hefyd ynghylch hynt TAN 8 a chytunodd y Gweinidog i baratoi nodyn ynghylch ei amseriad. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**
9. Nodwyd bod cydbwyso bywyd a gwaith yn fater hynod bwysig a bod gofal plant fforddadwy yn hanfodol i fenywod allu ymuno â'r farchnad lafur. Tynnodd y Gweinidog sylw'r Aelodau at y Gynhadledd ar Gydbwyso Bywyd a Gwaith a gynhaliwyd y diwrnod cynt. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd bod Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd rhan mewn arolwg Prydeinig wedi'i drefnu gan y Gwasanaethau Busnesau Bach o fusnesau bach a chanolig a'i bod yn talu'n ychwanegol am gael gwybodaeth ar lefel Gymreig.
10. Gofynnodd Aelodau sut oedd gweithgareddau'n cael eu had-drefnu i godi delwedd Cymru dramor. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn hanfodol codi proffil Cymru dramor er mwyn cynyddu allforion a bod y mewnfuddsoddwyr a ddenwyd gan y WDA yn ffactor bwysig yn adfywiad economi Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y WDA yn gweithio gydag ymgynghorwyr ar glustnodi sectorau a chytunodd swyddogion i baratoi nodyn ar y gwaith i aelodau. **[Gweithredu: Gweinidog DE]**

**Eitem 6: Adroddiad Chwarterol ar Gronfeydd Strwythurol**

**EDC 14-02(p7)**

1. Oherwydd prinder amser, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn cynnig gohirio'r drafodaeth am adroddiad chwarterol WEFO ar gronfeydd strwythurol tan y cyfarfod nesaf. Cytunodd yr Aelodau i hyn er iddynt ddweud ei bod yn bwysig cael trafodaeth lawn ar fater tan-ymrwymo cronfeydd a allai arwain at ddatymrwymo prosiectau. Awgrymwyd y gallai adroddiad y Pwyllgor Archwilio helpu'r Pwyllgor i drafod y mater.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**EDC 14-02 Cofnodion (Drafft)**

**EDC 15-02 Camau heb eu cymryd eto**

1. Dywedodd Aelod ei bod wedi gofyn bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cofnodi'r ffaith y byddai 325 o swyddi'n cael eu colli yn Dewhirst Aberteifi a 200 yn Elizabeth the Chef yn Aberystwyth. Cytunwyd i wneud y newidiadau y gofynnwyd amdanynt.

**Cyhoeddiad gan y Gweinidog**

Ar ddiwedd y cyfarfod, dywedodd y Gweinidog bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gwneud cyhoeddiad y funud honno am newidiadau i'r drefn noddi twristiaeth yn y DU, ac yn fwyaf arbennig, y BTA. Y bwriad oedd marchnata'r DU yn well ac yn fwy effeithiol dramor. Caiff y manylion eu cyhoeddi yn y man ar y Rhyngrwyd.

Mewn trafodaeth fer, croesawyd y symudiad gan yr Aelodau gan y byddai, ar yr olwg gyntaf, yn rhoi mwy o lais i'r Cynulliad mewn penderfyniadau am farchnata Cymru dramor. Nododd yr Aelodau nad oedd llawer o'r manylion yn bendant eto.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**